



Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru

Ymateb i COVID-19: Tystiolaeth

Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Senedd

Mai 2020



Cyflwyniad

1. Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru'n croesawu'r cyfle i ymateb i ymchwiliad y Pwyllgor i'r haint Covid-19 yng Nghymru.
2. O gofio sefyllfa gyfredol y pandemig, sy'n parhau, mae'r cyflwyniad hwn yn canolbwyntio'n fras ar y cynllunio gan y sefydliad cyn y pandemig, yr ymateb cyfredol i'r pandemig a'i ddull o ran cynllunio ar gyfer monitro ac adfer.
3. Ar adeg ysgrifennu hyn mae'r sefydliad yn cwmpasu'r ddau gam olaf - parhau i ymateb i'r argyfwng wrth ddechrau ar y broses o gynllunio ar gyfer monitro am gyfnod maith ac adfer.
4. Mae'n bwysig pwysleisio, tra'n rheoli'r galw trwy gydol y pandemig, ni fu newid sylfaenol ym model yr Ymddiriedolaeth o ddarparu gwasanaeth ar sail glinigol. Yn amlwg bu newidiadau ym mhattrwm y galw (a drafodir yn ddiweddarach yn y ddogfen hon) a lleoli staff, ond mae Gwasanaeth Ambiwylans Cymru wedi cynnal ei swyddogaeth a'i berfformiad Gwasanaeth Meddygol Brys craidd i raddau helaeth.
5. Yn yr un modd mae'n bwysig nodi bod sefydlu a chynnal dull cadarn o ran elfennau llywodraethu, corfforaethol, ariannol a chlinigol wedi bod yn ganolog i'r ffordd mae Gwasanaeth Ambiwylans Cymru wedi rheoli ei ymateb i'r pandemig.
6. Yn amlwg, mae hyn wedi bod yn gyfnod o ymateb digynsail gan y sefydliad, mewn amgylchedd newidiol cymhleth ac anwadal. O'r dechrau bu pwyslais ar wneud penderfyniadau tryloyw, diamwys, wedi'u dogfennu, gyda llinellau atebolrwydd clir ar sail rhesymeg gadarn, yn cynnwys herio a chraffu gan y Bwrdd.
7. Mae'r sefydliad wedi bod yn ystyriol trwy'r amser o'r angen i ddysgu o brofiad y pandemig hwn a'r tebygolrwydd o graffu allanol yn y dyfodol ynghylch gwneud penderfyniadau, a dyna pam bod pwyslais cryf ar gynnal lefel llywodraethu a sicrwydd da. Rhwir rhagor o fanylion am hyn yn ddiweddarach yn y cyflwyniad hwn.
8. Yn yr un modd, cydnabuwyd pwysigrwydd sylfaenol diogelwch cyflogaion a chleifion o'r dechrau, gyda phwyslais brwdfrydig ar lesiant staff a'r angen i fod yn ymwybodol o'r effaith tymor hirach ar gydweithwyr yn gweithio yn rheng flaen yr ymateb i'r pandemig am gyfnod estynedig o bosibl.

Cynllunio ac Asesu Cynnar

9. Un o brif elfennau dull yr Ymddiriedolaeth o reoli'r pandemig cyfredol oedd cynllunio cynnar.
10. Ddiwedd Ionawr cyhoeddodd Sefydliad Iechyd y Byd fod Coronafeirws newydd yn creu argyfwng iechyd byd-eang. Dogfennwyd lledaeniad y clefyd yn drwyadl yn ystod Chwefror, a daeth yn gwbl amlwg na fyddai'r Deyrnas Unedig yn debygol o beidio â chael ei effeithio.
11. Gwnaeth Tîm Gweithredol Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (YGAC) ystyried y cyd-destun byd-eang, Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig ar sawl achlysur yn ystod Chwefror, yn fwyaf nodweddiadol ar 4 Chwefror pan ddechreuwyd ymarfer pen desg ymateb i bandemig i adolygu'r cynlluniau a oedd yn bodoli a chapasiti'r gwasanaeth.

12. O ganlyniad, roedd y swyddogion gweithredol o'r farn ei bod yn briodol dan yr amgylchiadau ysgogi'n anffurfiol gynllun pandemig y ffliw'r sefydliad a oedd yn bodoli eisoes a, drwy wneud hynny, alluogi sefydlu strwythur ymateb gweithredol clir yn gyfrifol am ddatblygiad cyflym cynlluniau cyflawni mewn argyfwng y sefydliad.
13. Tan ddechrau Mawrth, pan gynhaliwyd cynllunio cynhwysfawr, parhaodd statws anffurfiol y cynllun. Fodd bynnag, roedd effaith potensial Covid-19 ar Gymru'n dod yn fwyfwy amlwg ac, ar 4 Mawrth, gwnaeth y Prif Weithredwr, Jason Killens, gyda chefnogaeth y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd, sbarduno'n trefniadau yn y cynllun pandemig y ffliw yn ffurfiol, gan gymeradwyo strategaeth pandemig y sefydliad.
14. Wrth gymryd y cam hwn, pennwyd dau amcan corfforaethol clir a'u cyfathrebu'n eang, sef:
 - i. Cymryd yr holl gamau rhesymol, angenrheidiol a chyfrannol yn yr holl amgylchiadau i gyflawni'r amcanion a nodwyd yn y strategaeth pandemig, a
 - ii. Parhau gyda recriwtio i gyflawni'r isafswm cynnydd 136 staff yn cyfateb i amser llawn yn y Gwasanaeth Meddygol Brys fel y cytunwyd gyda'r comisiynwyr ar gyfer 2020/21. Roedd hyn i wneud yn siŵr bod hyfywedd a pherfformiad tymor hir gweithlu'r sefydliad yn cael ei sicrhau, gan sylweddoli y byddai'n ffolineb cyfaddawdu cynllunio allweddol i'r dyfodol tra'n ystyried effaith buan a thebygol y pandemig.
15. O ganlyniad i'r penderfyniadau hyn cafodd gweithgareddau eraill anangenrheidiol eu hoedi er mwyn galluogi canolbwyntio ar y meysydd hyn. Sefydlwyd strwythur cydlynu ac atebolrwydd i hwyluso hyn, dan arweiniad cyfarfodydd ddwywaith yr wythnos y Tîm Pandemig Gweithredol a ategwyd gan nifer o gyfarfodydd y Tîm Pandemig Gweithredol ar sail *ad-hoc* a oedd yn ofynnol yn ystod camau cynnal y pandemig i ymateb yn ystyryth i'r sefyllfa esblygol.
16. Yr allwedd i ddatblygu cynlluniau ymateb y sefydliad oedd i ba raddau y byddai'r cynnydd a ragwelwyd mewn gweithgarwch, cyfyngiadau staffio oherwydd salwch neu absenoldeb ynysu a tharfu ar y gwasanaeth o ganlyniad i ffactorau allanol eraill, megis ymyriad yn y gadwyn gyflenwi, yn effeithio ar gyflawni'r gwasanaeth.
17. Bu'n rhaid gwneud rhai tybiaethau ar sail hynny, gan weithio ar fodelu cenedlaethol "yr achos gwaethaf" ac ar brofiad gwasanaethau ambiwlans eraill yn gweithredu mewn ardaloedd ar y blaen i gromlin pandemig Cymru, sef Gwasanaeth Ambiwllans Llundain yn benodol.
18. Comisiynwyd capasiti modelu ychwanegol mewn ymdrech i ddeall effaith cynnydd yn y galw ond cytunwyd, er mwyn peidio ag oedi defnyddio'r capasiti ychwanegol ar gael, y byddai chwe maes allweddol busnes YGAC yn cael eu blaenoriaethu. Y meysydd a nodwyd oedd:
 - i. Ymateb ambiwlans (gwasanaeth argyfwng, gofal brys a chluddiant cleifion) – trefniadau i gynhyrchu capasiti ychwanegol mewn ymateb i alw cynyddol
 - ii. Ffilyd cerbydau – trefniadau i sicrhau argaeledd yr uchafswm cerbydau ac offer
 - iii. Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu – trefniadau i ddiogelu systemau critigol a chefnogi gweithio o bell a gweithio'n hyblyg
 - iv. Y gadwyn gyflenwi - trefniadau i sicrhau cyflenwadau digonol eitemau a deunyddiau angenrheidiol fel Cyfarpar Diogelu Personol
 - v. Canolfan Adnoddau – trefniadau i hwyluso defnyddio niferoedd staff uwch a chynnal gwasanaethau amserlennu craidd

- vi. Canolfan Gyswllt Clinigol (999, 111, Desg Gymorth Clinigol a Gwasanaeth Cludiant Cleifion) – trefniadau i ddiogelu swyddogaethau rheoli critigol, cynyddu eu capasiti ac arallgyfeirio tasgau
- 19. Y bwriad oedd diogelu a chryfhau meysydd hynny gwaith y sefydliad a fyddai'n cyd-fynd agosaf gyda chynnal gofal cleifion a diogelwch cyflogeion.
- 20. Yn ychwanegol ac yn bwysig, cafwyd ceisiadau cynnar am gymorth gan nifer o asiantaethau partner, yn cynnwys gwasanaethau tân ac achub, Ambiwlans Sant Ioan Cymru a chydweithwyr o'r lluoedd arfog, a gafwyd trwy gais "cymorth milwrol i awdurdodau sifil."
- 21. Gwnaed cais am gymorth i sicrhau capasiti ychwanegol y Gwasanaeth Cludiant Cleifion hefyd, a allai fod yn ofynnol i wasanaethu ysbytai maes byrddau iechyd a safleoedd cynnydd eraill. Roedd yr olaf yn bryder cynnar o ran capasiti'r sefydliad i ymateb a chefnogi, yn enwedig o gofio'r potensial am nifer uchel iawn o gleifion a grybwyllwyd bryd hynny.
- 22. Gwnaed y ceisiadau hyn ar sail penderfyniad cynnar i sicrhau gymaint o gapasiti ychwanegol sgiliedig ag y bo'n bosibl, gan sylweddoli fod graddfa'r her yn ddigynsail ac yn anfeintiol, ac y gallai unrhyw oedi cyn gwneud hynny arwain at adnoddau o'r fath ddim ar gael yn ddiweddarach. Bydd cyfraniad cydweithwyr o'r gwasanaethau hyn, ynghyd â chymorth a chefnogaeth arall, yn cael sylw manwl yn ddiweddarach yn y cyflwyniad hwn.

Ymateb Sefydliadol

- 23. Mae'r ymateb i'r pandemig hwn gan Wasanaeth Ambiwlans Cymru, fel yn achos yr holl sefydliadau, wedi bod yn llawn cymhlethdodau gweithredol.
- 24. Mae'r adrannau isod yn canolbwyntio ar rai meysydd allweddol a allai fod o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor ac sydd wedi bod yn ganolog i ymateb llwyddiannus hyd yma'r sefydliad i'r heriau a gyflwynodd eu hunain.

Y Gweithlu

- 25. Mae cyflogeion Gwasanaeth Ambiwlans Cymru wedi camu ymlaen yn rhyfeddol dros y misoedd diwethaf i wynebu heriau'r pandemig hwn.
- 26. Effeithiwyd ar bob rhan o fusnes y sefydliad, o'r clinigwyr ar y rheng flaen, cydweithwyr yn gweithio yn y canolfannau cyswllt clinigol 111 a 999 i gydweithwyr yn gweithio mewn swyddogaethau corfforaethol fel ystadau, adnoddau dynol, Technoleg Gwybodaeth, cyllid, cynllunio a chyfathrebu.
- 27. Un o ddangosyddion cliraf ymrwymiad y gweithlu yw ei barodrwydd i weithio'n wahanol. Mae'r staff wedi derbyn bod y dull arweinyddiaeth wedi gorfod bod yn fwy cyfarwyddiadol, o anghenraid, yn enwedig yn ystod camau cynnar gweithredu'r cynllun ymateb i bandemig, a bod angen addasu rolau a swyddogaethau i ateb y pwysau ar y gwasanaeth.
- 28. Mae'r parodrwydd hwn i weithio mewn modd gwahanol yn cwmpasu nifer o feysydd, yn cynnwys y dulliau lleoli swyddogion, criwiau ar gerbydau i wneud y mwyaf o'r adnoddau ar gael, adleoli i wasanaethau craidd, yn enwedig o rolau corfforaethol, a gweithio o bell i'r rhai hynny y mae eu swyddi'n gwneud hyn yn ddichonadwy ac effeithiol.

29. Mae parodrwydd o'r fath yn dyst i'r buddsoddiad a wnaed dros nifer o flynyddoedd mewn arweinyddiaeth a rheolaeth a symud i ddiwylliant wedi'i sylfaenu ar gydweithredu a bod yn dosturiol.
30. Nid yw'r ffaith y bu angen dull mwy cyfarwyddiadol yn ddiweddar yn arwydd fod hyn yn ddiwylliant mae'r sefydliad yn dymuno ei gyflwyno, ond yn hytrach yn adlewyrchu'r angen am linellau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd clir a diamwys ar amser o ansicrwydd sylweddol. Mae'r staff yn deall hyn, ac wedi ymateb yn briodol.
31. Ar adeg ysgrifennu hyn rydym yn cynnal arolwg ymhlith ein cyflogeion i glywed rhagor am sut mae'r misoedd diwethaf wedi teimlo o safbwynt y staff, a bydd hyn yn ddull dysgu gwerthfawr i'r sefydliad i hysbysu camau nesaf ei ymateb wrth iddo symud tuag at y cam monitro ac adfer.
32. Yn amlwg mae hyn wedi bod yn gyfnod pryderus i lawer o gydweithwyr ac, yn drist iawn, mae'r sefydliad ar adeg ysgrifennu hyn wedi colli un aelod o staff i Covid-19, gyda nifer o rai eraill wedi bod angen neu angen gofal dwys ar hyn o bryd.
33. Yn ychwanegol, rhoddwyd ystyriaeth yn gynnar i'r adnoddau ychwanegol a fyddai'n ofynnol i ateb y galw potensial, fel yr amlinellwyd uchod.
34. Yn ychwanegol at adleoli staff presennol o wasanaethau nad ydynt yn wasanaethau craidd i feysydd fel ateb galwadau 111 (maes lle'r oedd galw cynnar arwyddocaol), rolau cynghori clinigol a chymorth i'r seilwaith pandemig gweithredol, mabwysiadwyd dull haenau o ran cyflenwi capasiti allanol ychwanegol.
35. Roedd y dull hwn yn cynnwys:
- Sicrhau cefnogaeth gan y garfan myfyrwyr parafeddygol gyfredol ym Mhrifysgol Abertawe
 - Hysbysebion agored i'r cyhoedd - galw am ymateb - i ddenu gweithwyr dros dro a gwirfoddolwyr i gefnogi mewn meysydd allweddol. Roedd hyn yn cynnwys pobl wedi ymddeol a dychwelwyr a oedd yn dymuno dychwelyd i waith cyflogedig neu ddi-dâl
 - Lleoli staff eraill o gyrff GIG eraill
 - Lleoli staff gan bartneriaid sector cyhoeddus/preifat ehangach e.e. staff gwasanaeth tân ac achub, gwasanaethau prawf ac awdurdodau lleol (ar gyfer Gwasanaeth Cludiant Cleifion a gwasanaeth gywyr ceir gwirfoddol), darparwyd cludiant preifat (ar gyfer Gwasanaethau Cludiant Cleifion) a phersonél milwrol
 - Cysylltu gyda busnesau a sefydliadau'n wynebu cau a/neu roi staff ar ffyrlo (gan nodi fod rhaid i unigolion gael caniatâd eu cyflogwr i weithio i sefydliad arall tra ar ffyrlo)
36. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cefnogi gweithio gartref i'r staff hynny sy'n medru gwneud hynny ac wedi darparu'r holl dechnoleg gwybodaeth ofynnol i ateb gofynion deddfwriaethol Covid-19 y Llywodraeth.
37. O gofio'r tirwedd sefydliadol hwn a oedd yn newid yn gyflym bu'n arbennig o bwysig, felly, gweithio'n agos gyda phartneriaid undeb llafur a thimau i ddeall eu pryderon ac ymateb yn briodol, yn ogystal â chyfathrebu'n glir ac yn rheolaidd fel bod cydweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u hysbysu'n dda.

38. Mae partneriaid undeb llafur wedi ymwneud yn agos gyda datblygu a gweithredu dull rheoli ac ymdopi'r sefydliad trwy'r pandemig, gyda chynrychiolwyr ar nifer o grwpiau allweddol, yn cynnwys eu haelodaeth ar y Bwrdd, sydd wedi parhau i gynnal rhith gyfarfodydd, i aelodaeth grwpiau pandemig amrywiol yn ein strwythurau llywodraethu ac ymateb, yn cynnwys grwpiau sy'n gweithio ar logisteg (yn cynnwys cyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol) ac iechyd, diogelwch a llesiant ac eraill.
39. Yn ychwanegol, mae partneriaid Undeb Llafur arweiniol wedi cael sesiynau briffio grŵp rheolaidd gyda'r Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu'r Sefydliad, yn ogystal ag aelodaeth grŵp penodol sy'n dod â thîm Undeb Llafur ehangach ynghyd gyda chydweithwyr lefel cyfarwyddwr allweddol.
40. Mae cymryd rhan yn y grwpiau hyn wedi galluogi'r undebau llafur i rannu unrhyw bryderon gan eu haelodau neu ofyn am eglurder. Mae hyn wedi arwain at un ai ddarparu eglurhad yn brydlon a/neu'r cyfle i weithio'n agos gyda chydweithwyr sy'n rheolwyr i sicrhau datrysiadau priodol. Mae hefyd wedi darparu'r cyfle i drafod a chael consensws ynghylch materion mwy heriol, er enghraifft, y canllawiau ynghylch defnyddio a chyflenwi cyfarpar diogelu personol, rhywbeth y cyfeirir ato yn fanylach yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.
41. O gofio cryfder adnewyddol y berthynas rhwng undebau llafur a'r rheolwyr, mae'n bwysig cynnal y momentwm hwn a'i ddefnyddio i gydnerthu trefniadau partneriaeth ymhellach, gan gydnabod fod yr amgylchedd yn heriol ond hefyd yn llawn cyfleoedd i wneud y mwyaf o nifer o ddatblygiadau y mae ymateb y sefydliad i Covid-19 wedi'u cyflwyno, er enghraifft, yn y maes digidol.
42. Cyfeiriwyd at y sefydliad yn gwneud penderfyniad cynnar i gael gafael ar adnoddau ychwanegol. Gwnaeth hyn ymestyn i wirfoddolwyr a staff taledig ychwanegol, yn unol â mwyafrif y sefydliadau iechyd ledled y wlad.
43. Tra bo gan Wasanaeth Ambiwlans Cymru garfan ymroddedig a sgiliedig o wirfoddolwyr, ar ffurf Ymatebwyr Cyntaf Cymunedol a gyrwyr y Gwasanaeth Ceir Gwirfoddol, daeth yn amlwg, o ystyried risgiau delio gyda chleifion yr amheuwyd eu bod yn dioddef o Covid-19 neu a oedd yn dioddef o'r clefyd, byddai'n angenrheidiol defnyddio'r gwirfoddolwyr a oedd yn bodoli eisoes mewn ffyrdd gwahanol.
44. Gyda'r apwyntiadau allgleifion arferol wedi'u hoedi gan fyrdau iechyd, cafodd gyrwyr y gwasanaeth ceir gwirfoddol eu rhyddhau i raddau helaeth, tra'i bod yn angenrheidiol addasu i ba ddogfyddiadau yr anfonwyd Ymatebwyr Cyntaf Cymunedol.
45. Yn gyffredinol, ac er budd eu hiechyd a'u diogelwch, mae gwirfoddolwyr wedi derbyn tasgau priodol a gwahanol i'r arfer. Er enghraifft, peidio ag anfon Ymatebwyr Cyntaf Cymunedol at yr achosion hynny lle'r oedd yn hysbys bod angen gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol, adfer cardio-pwlmonaidd yn benodol. Roedd hyn yn golygu peidio eu dyrannu'n awtomatig na'u hanfon i ddogfyddiadau COCH. Ar hyn o bryd nid yw Ymatebwyr Cyntaf Cymunedol yn cael eu hanfon i unrhyw ddogfyddiad lle mae'r broses ateb yr alwad yn nodi unrhyw risg o Covid-19.
46. Yn yr un modd mae'n rhaid i ymatebwyr cyntaf fod wedi derbyn hyfforddiant sut i wisgo cyfarpar diogelu personol lefel 2 cyn mynd i ddogfyddiad ac felly mae'n rhaid cael cyfarpar diogelu personol lefel 2 ar gael iddyn nhw cyn mynd at glaf. Unwaith y maent wedi'u

hyfforddi mae'r ymatebwyr cyntaf yn cael y cyfarpar diogelu personol trwy eu tîm pandemig lleol.

47. Tra y sylweddolwyd y byddai defnyddio'r Ymatebwyr Cyntaf Cymunedol yn wahanol yn medru cael effaith niweidiol ar berfformiad COCH, cydnabuwyd yn gyffredinol mai iechyd a diogelwch y gwirfoddolwyr hyn oedd flaenaf ac y gallent wneud eu cyfraniad mewn ffyrdd eraill, er enghraifft, cefnogi profi bod cyfarpar diogelu personol staff yn ffitio'n gywir.
48. Er gwaethaf cefnogaeth ddiflino gwirfoddolwyr, ac o gofio effaith tebygol lefel absenoldeb uwch o blith staff sefydlog, gwnaed penderfyniad i apelio am wirfoddolwyr a staff taledig (staff clinigol yn benodol) trwy'r cyfryngau cymdeithasol a defnyddio proses ymgeisio carlam i gynorthwyo i gryfhau cydnerthedd y sefydliad. Gwnaeth hyn arwain at dros 1,500 o geisiadau cyn pen 24 awr, gydag apêl arall am staff clinigol.
49. O ganlyniad i hyn recriwtwyd clinigwyr ychwanegol, i'r rheng flaen ac i'r Canolfannau Cyswllt Clinigol ac 111, yn ogystal â staff ychwanegol yn cefnogi amrediad o swyddogaethau, yn cynnwys ateb galwadau 111 a 999.
50. Ynghyd ag oddeutu 60 o gydweithwyr milwrol trwy'r cais am gymorth milwrol i awdurdodau sifil, a gyda chymorth rheng flaen ychwanegol ar gael gan wasanaethau tân ac achub (er na fu angen lleoli'r rhain ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon), mae Gwasanaeth Ambiwlans Cymru wedi cael lefelau staffio cydnerth ar draws ei wasanaethau, er gwaethaf cyfradd absenoldeb staff o tua 12% ar adegau yn ystod y cyfnod brig. Mae hyn wedi sefydlogi yn awr i oddeutu 6%.
51. O ran adnoddau gwnaed penderfyniad hefyd i gymell staff i wneud gwaith llanw shifftiau allweddol yn ystod Ebrill a Mai i sicrhau staffio digonol. Roedd hyn yn fras yn estyniad y cynlluniau hynny a ddefnyddiwyd yn ystod cyfnod gaeaf 2019/20 i sicrhau staffio digonol ar adegau brig.
52. Yn ychwanegol gwnaed penderfyniad i ddigolledu'n ariannol am gyfnod dros dro'r rheolwyr Band 8 hynny sydd wedi gweithio ymhell dros yr hyn y byddid wedi'i ddisgwyl yn rhesymol ganddynt. Roedd hyn yn unol â chytundeb cenedlaethol ar y mater hwn, gyda threfniant lleol wedi'i gytuno gan Bwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol Bwrdd yr Ymddiriedolaeth.
53. Yn bwysig iawn, mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn hynod ymwybodol o effaith ffisegol a seicolegol newidiadau radical i'w swyddi ar staff, a'r lefel risg maen nhw'n eu hwynebu'n rheolaidd ar hyn o bryd.
54. O ganlyniad sefydlwyd cell iechyd, diogelwch a llesiant sy'n cynghori ynghylch gweithredoedd lliniaru y gall yr Ymddiriedolaeth eu cyflwyno i ddiogelu llesiant ei staff, yn cynnwys y rhai sy'n gweithio o bell.
55. Rhagwelir y bydd effaith gweithio trwy bandemig ar lesiant staff yn rhywbeth â chanlyniadau pellgyrhaeddol ac mae seicolegydd clinigol arweiniol yr Ymddiriedolaeth wedi bod yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr ar amrediad o ymyriadau i gefnogi rheolwyr a staff i gynnal iechyd seicolegol a chorfforol.
56. Gan fod uwchbwynt cam hwn y pandemig wedi mynd heibio a bod mwy o ecwilibriwm yn y system, mae hyn yn ymestyn i annog staff i gymryd gwyliau wedi'i amserlennu i sicrhau eu bod yn cymryd amser o'r gwaith i orffwys ac adfer eu nerth.

Cyfarpar Diogelu Personol

57. Bu llawer o sylw yn y cyfryngau, yn enwedig yn ystod camau cynharach y pandemig, ynghylch y ddirnadaeth bod diffyg yn y cyflenwad Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer staff iechyd a gofal cymdeithasol.
58. O ganlyniad i gynllunio cynnar adnabu'r Ymddiriedolaeth yr angen i gynyddu ei stoc o Gyfarpar Diogelu Personol, trwy archebu cannoedd o gyflau resbiradol Versaflo ym mis Ionawr 2020. Yn anffodus, nid yw'r archeb wedi'i darparu'n llawn eto gan fod gweithgynhyrchwyr wedi cael trafferthion cyd-fynd gyda'r galw byd-eang a chafodd rhai cyflenwadau eu dargyfeirio i farchnadoedd eraill.
59. Er gwaethaf y cynllunio cynnar hwn mae cyflenwad Cyfarpar Diogelu Personol wedi bod yn heriol, ar adegau. Treuliyd swm sylweddol o amser rheolwyr ac arweinyddion yn gweithio gyda phartneriaid cadwyn gyflenwi, wedi'i lywio gan gell logisteg pandemig y sefydliad, i sicrhau ffynhonnell cyflenwad digonol cyfarpar diogelu personol.
60. Yn ddiamheuaeth cyflenwad a defnyddio cyfarpar diogelu personol fu'r pryder unigol mwyaf ymhlith staff ar y rheng flaen, a chodwyd y mater yn gyson gan bartneriaid undeb llafur. Nid yw hyn yn syndod o gofio'r amgylchiadau a lefel uchel y marwolaethau ymhlith gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol o ganlyniad i gael eu heintio gyda Covid-19, yn cynnwys yn y sefydliad.
61. Mae agwedd yr Ymddiriedolaeth tuag at ddefnyddio cyfarpar diogelu personol wedi bod yn ymarferol, wedi'i seilio ar gydymffurfio gyda chanllawiau cenedlaethol a gwrando ar, a gweithredu ynghylch pryderon staff.
62. Tra bo Gwasanaeth Ambiwlans Cymru wedi derbyn a mabwysiadu canllawiau cenedlaethol yng nghyswllt defnyddio cyfarpar diogelu personol, mae wedi rhoi'r rhyddid i staff ategu at y lefelau cyfarpar diogelu personol rhagnodedig, yn enwedig ar lefel 2, lle bo asesiad risg clinigol dynamig y sefyllfa'n dynodi y gellir cyfiawnhau hyn.
63. Dylid nodi fod gwybodaeth a chanllawiau gan gyrff canolog (Iechyd Cyhoeddus Cymru/Iechyd Cyhoeddus Lloegr) wedi newid, trwy gydol esblygiad y pandemig, wrth wella dealltwriaeth am Covid-19 ac amllder y clefyd yn y gymuned.
64. Mae hyfforddiant a chyfathrebu wedi bod yn allweddol, yn cynnwys cefnogi staff gyda hyfforddiant ynghylch defnyddio cyfarpar diogelu personol a bod yn glir ynghylch y lefelau cyfarpar sy'n ofynnol mewn sefyllfaoedd clinigol gwahanol.
65. Mae profi ffit, proses asesu aelod staff yn defnyddio masg wyneb hidlo (FFP3) wedi bod yr un mor bwysig, gan ei fod yn hanfodol bwysig bod staff yn sicrhau "ffit" cywir pob math o fasg a ddarperir i sicrhau eu defnydd diogel yn y lleoliadau gweithredol.
66. Mae cyfarpar diogelu personol wedi bod yn destun cyfathrebu cynhwysfawr ar draws yr Ymddiriedolaeth, tra bo proses asesu risg wedi'i sefydlu i gynnal asesiad risg ar offer a roddwyd a chynhyrchion wedi'u caffael y tu allan i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru neu ffynonellau cadwyn gyflenwi arferol.

67. Cell logisteg y sefydliad sydd wedi bod yn llywio dod o hyd i ffynonellau a sicrhau cyflenwad cyfarpar diogelu personol, sy'n cynnwys cynrychiolaeth eang o bob rhan o'r sefydliad, yn cynnwys partneriaid undeb llafur.
68. Mae'r gadwyn gyflenwi cyfarpar diogelu personol wedi sefydlogi erbyn hyn, ac mae'r pwyslais wedi symud i gydnerthedd yn y dyfodol yn achos tonnau dilynol y pandemig.
69. Yn yr un modd mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ymateb i bryderon staff am gadw pellter cymdeithasol mewn meysydd yn y sefydliad lle mae pobl yn gweithio'n agos at ei gilydd, o anghenraid, er enghraifft mewn canolfannau cyswllt clinigol ac 111.
70. Cyflwynwyd mesurau i amddiffyn llesiant staff, yn cynnwys gosod sgriniau Perspex mewn rhai canolfannau lle nad yw'n bosibl creu gwagle ychwanegol, a datblygu gwagle ateb galwadau ffisegol ychwanegol (rhagor o fanylion yn ddiweddarach yn y cyflwyniad hwn).
71. Cymrwyd camau hefyd ar lefel leol i reoli cadw pellter cymdeithasol mewn gorsafoedd ambiwlans a lleoliadau a rennir, er enghraifft, y rhai sy'n cael eu rhannu gyda chydweithwyr gwasanaethau brys eraill.
72. Mae cydweithwyr milwrol wedi bod yn ymestyn capasiti'r sefydliad yn ei gyfleusterau "gwneud yn barod" i sicrhau bod ambiwlansiau sydd angen eu glanhau'n drylwyr yn cael eu dychwelyd i wasanaethu yn brydlon. Sefydlwyd cyfleusterau ychwanegol mewn nifer o leoliadau, yn cynnwys safleoedd ysbytai.

Profion

73. Roedd cael profion i staff Gwasanaeth Ambiwylans Cymru a oedd yn dangos symptomau Covid-19 yn amrywiol ar draws Cymru i ddechrau, ond mae hyn wedi setlo erbyn hyn a'r broses wedi'i llilinio.
74. Tra bo disgwyl rhai trafferthion "torri dannedd" cynnar o gofio'r angen i sefydlu strwythurau a mecanweithiau ar raddfa fawr yn gyflym, roedd tipyn o rwystredigaeth o du cyflogeion a'r sefydliad gyda'r broses atgyfeirio, cyflymder cael prawf a'r prosesau derbyn canlyniadau.
75. Mae mwyafrif y problemau hyn wedi'u datrys yn awr, ond wrth i'r wlad symud at fodel "profi, olrhain, diogelu" bydd cael prosesau llyfn, sydyn ac unfath yn bwysig.
76. Ar adeg ysgrifennu hyn mae'r model "profi, olrhain, diogelu" i'w ddefnyddio'n fuan, gyda'r sefydliad yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws y system i ddeall y goblygiadau i'w staff.


Galw a Pherfformiad

77. Un o'r prif bwyntiau dysgu trwy gydol y pandemig hyd yma fu yng nghyswllt patrymau'r galw.
78. Mae'r galw traddodiadol, yn enwedig yn y categori galwadau oren, wedi lleihau'n arwyddocaol, tra bo'r galw coch wedi parhau'n gymharol sefydlog. Yn yr un modd mae'r galw gan ymarferwyr gofal iechyd wedi lleihau'n arwyddocaol.


79. Tra bo peth o hyn i'w ddisgwyl o gofio newidiadau mewn ymddygiad o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud, er enghraifft, llai o wrthdrawiadau traffig ffyrdd, mae rhai anomaleddau sy'n haeddu eu craffu'n fanylach, er enghraifft, llai o gwympiadau, gyda llawer o'r rhain wedi bod mewn lleoliadau preswyl yn draddodiadol. Mae hyn yn rhywbeth a fydd yn destun adolygiad yn y dyfodol yn ddiamau.
80. Mae'r galw am y gwasanaethau 111 a 999 wedi gwasanaethu fel baromedr yn ystod y pandemig, ac wedi'i fonitro'n ofalus. Yn wir, ar ddechrau'r pandemig roedd cydnerthedd y gwasanaeth yn bryder cynnar, o ystyried nifer y galwadau a ddisgwylid gan y cyhoedd yn poeni ynghyd â'r addasiadau technegol angenrheidiol i sicrhau bod y rhif 111 ar gael ar draws Cymru ar gyfer yr holl alwadau'n gysylltiedig â Covid-19.
81. Mae'n bwysig nodi y buddsoddwyd cryn ymdrech yn sicrhau bod agweddau digidol a thelegyfathrebu'r gwasanaeth 111 wedi'u cryfhau yn gynnar yn ystod y pandemig. Buddsoddwyd ymhellach yn y capasiti ateb galwadau mewn ymdrech i uchafu cydnerthedd y gwasanaeth ar draws Cymru a oedd dan y pwysau mwyaf eithafol, a gyflawnwyd i raddau helaeth, er gwaethaf rhai galwyr yn aros am hirach nag a ddeisyfwyd pan oedd y pandemig ar ei anterth.
82. Gwnaeth y galw o ran Galw Iechyd Cymru a galwadau 111 ddod i frig yn sydyn ar ddechrau'r pandemig, fel y dangosir yn y graff isod. Gwelwyd pwysau ychwanegol ar y gwiriwr symptomau ar-lein, a gafodd ei ddiweddarau nifer o weithiau yn ystod cyfnod y pandemig wrth i'r diffiniad achos newid, yn aml gyda'r canlyniad o ymchwydd yn y gweithgaredd bob tro y newidiwyd y diffiniad achos.

NHSD/111 Calls to CSQ


Source – Qlik Sense App Cisco Express, Bookmark TPT Slide 18 – NHSDW/111 Calls to CSQ




84. O ran galw'n gysylltiedig gyda'r pandemig, defnyddiwyd y protocol pandemig ar gyfer trin galwadau 999 (a adnabyddir fel Cerdyn 36) ar ei lefel isaf, ar y cyd â gwasanaethau ambiwlans eraill y Deyrnas Unedig ar 2 Ebrill 2020.
85. Mae Protocol 36, sy'n ategu eraill yn y System Anfon ar sail Blaenoriaeth Feddygol, wedi'i ddylunio'n benodol ar gyfer rheoli pandemig. Mae'n cynnwys pedair lefel, gyda Gwasanaeth Ambiwllans Cymru'n gweithredu ar lefel 0 rhwng 2 Ebrill 2020 a 9 Ebrill 2020, a lefel 1 rhwng 9 Ebrill 2020 a 21 Ebrill 2020.
86. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i weithredu ar lefel 0 ar hyn o bryd. Mae Lefel 0 yn darparu cryfhau monitro a rheoli achosion Coronafeirws a amheuir/symptomatig yn y gymuned ac mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu parhau i weithredu'r system hon am y dyfodol rhagweladwy.
87. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi monitro rhai o brif brotocolau'r System Anfon ar sail Blaenoriaeth Feddygol yn rheolaidd i olrhain y galw yn fanylach, yn cynnwys Protocol 36. Roedd galwadau ynghylch anawsterau anadlu'n cynyddu eisoes o ddechrau Ionawr 2020 a gwnaeth y cyfuniad anawsterau anadlu, poen yn y frest, unigolyn sâl a'r galw Covid-19 gyrraedd brig a dechrau lleihau ar ôl wythnos 15.



88. O ran cynllunio ar gyfer y sefyllfa achos gwaethaf, mae'r Ymddiriedolaeth wedi gorfod archwilio a chadarnhau estyniadau i'w gynlluniau rheoli'r galw lle, ar adegau trothwy galw uchel, byddai angen gwneud penderfyniadau ynghylch defnyddio polisi "peidio ag anfon" ar gyfer y galwadau lleiaf difrifol. Hyd yma yn ystod y pandemig hwn nid yw'r galw wedi bod yn ddigonol i ystyried hyn, er bod cynlluniau'n parhau yn eu lle petai'n angenrheidiol gwneud hyn.
89. Mae'r amseroedd ymateb wedi gwella o ganlyniad i'r lleihad yn y galw cyffredinol, cynyddu nifer yr oriau ambiwlans brys a lleihad yn yr oriau a gollwyd yn trosglwyddo.
90. Gwnaeth amseroedd ymateb Coch ddisgyn fymryn o dan 65% am y tro cyntaf yn 2020 ym mis Mawrth, gan wella yn Ebrill i uwch na'r targed 65%. Parhawyd i nodi mwy o welliannau trwy gydol mis Mai. Mae gwahaniaethau mewn perfformiad yn parhau ar draws ffiniau byrddau iechyd, sy'n gyson gyda'r amrywiadau a welir yn ystod adegau 'normal.' Rydym yn parhau i archwilio'r amrywiadau hyn, gyda'r nod o'u lleihau lle bo'n bosibl.



91. Trwy gydol y cyfnod ymateb i Covid-19 hyd yma, gwelwyd gwelliannau arwyddocaol yn yr amseroedd ymateb oren, yn benodol, y gynffon oren (y 95 canradd) sy'n sensitif i newidiadau mewn galw a chapasiti. Mae amrywiad yn y perfformiad yn ôl bwrdd iechyd yn parhau.



92. Er mwyn uchafu trefnu criwiau a lefelau ymateb cafwyd newid dechreuol mewn lleoli gan leihau'r ffocws ar gerbydau ymateb cyflym criw sengl a ffafrio ymateb ambiwlans argyfwng llawn. Gyda staffio ychwanegol yn bodoli, yn enwedig cydweithwyr milwrol, symudwyd tuag at gerbydau ymateb cyflym criw dwbl, gyda phersonél milwrol yn darparu hyd at 50% o'r ddarpariaeth ail weithredwr ar shifftiau Cerbydau Ymateb Cyflym.

93. Yn y Gwasanaeth Cludiant Cleifion mae'r gwasanaeth wedi gorfod gwneud neu ymateb i nifer o newidiadau i'w ddulliau arferol darparu'r gwasanaeth, yn cynnwys cyfyngiadau ar nifer y cleifion ymhob cerbyd, sgriniau rhwng y cab a gweddill y cerbyd, cadw cleifion yr amheuir fod ganddynt Covid-19 a'r rhai y cadarnhawyd eu bod yn dioddef ar wahân a phrosesau bwcio, cynllunio a dyrannu newydd wedi'u cyflwyno.

94. Yn yr un modd, sicrhawyd capasiti ychwanegol i gefnogi'r Gwasanaeth Cludiant Cleifion, yn bennaf mewn ymateb capasiti ymchwydd/ysbytai maes a oedd yn cael eu datblygu gan y byrddau iechyd. Bu'n angenrheidiol barnu'n gynnar ynghylch y potensial am alw mawr ar y Gwasanaeth Cludiant Cleifion petai trosglwyddo rhwng cyfleusterau wedi dod yn elfen arwyddocaol a gwnaed penderfyniad cynnar i sicrhau cefnogaeth ychwanegol gan amrediad o bartneriaid. Hyd yma nid yw'r galw hwnnw wedi'i wireddu mewn unrhyw fodd ystyrlon.

Materion Clinigol

95. Sefydlwyd Cell Gyngkori Clinigol i ddarparu cyngor i'r Tîm Pandemig Tactegol a'r Tîm Pandemig Gweithredol. Mae dan gyd-gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd a Nyrsio a'r Cyfarwyddwr Meddygol.
96. Mae'r Gell Gyngkori Clinigol yn darparu cyngor clinigol manwl i'r Ymddiriedolaeth ar yr holl faterion clinigol yn ymwneud â'r pandemig Covid-19. Amcanion y Gell Gyngkori Clinigol yw:
- adolygu ac ystyried canllawiau cenedlaethol ynghylch materion clinigol yn ymwneud â phandemig Covid-19
 - darparu safiad ar faterion clinigol yn ymwneud â phandemig Covid-19 a
 - sicrhau fod cymeradwyo clinigol gweithgareddau penodol yr Ymddiriedolaeth yn ymwneud â Covid -19 yn cael ei gyflawni mewn modd amserol.
97. Mae'r Gell Gyngkori Clinigol wedi bod yn hanfodol yn ystod y cyfnod hwn i sicrhau bod diwydrwydd dyladwy wrth ddarparu cyngor a chanllawiau clinigol. Mae'r Gell yn darparu cyngor i holl leoliadau'r sefydliad, yn cynnwys:
- y gwasanaeth 111 yn cynnwys y gwirwyr symptomau
 - y Gwasanaeth Cludiant Cleifion
 - Iechyd Galwedigaethol
 - Gwasanaeth Meddygol Brys
98. Gan fod Covid-19 yn feirws newydd mae'r canllawiau wedi newid yn aml ac mae'r anghysondeb yn parhau o ran y cyngor gan gyrrff cenedlaethol. Mae hyn wedi bod yn arbennig o heriol o ran cywasgiadau cardiaidd a ph'un ai yw'r rhain yn cael eu hystyried yn Weithdrefn sy'n cynhyrchu Aerosol.
99. Tra bo Iechyd Cyhoeddus Lloegr a NERVTAG (New and Emerging Respiratory Virus Threats Advisory Group) yn cynghori nad yw cywasgiadau cardiaidd yn weithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol, mae Cyngor Dadebru'r Deyrnas Unedig (RCUK) yn datgan eu bod yn weithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol.
100. Mae'r Gell Gyngkori Clinigol wedi bod yn ganolog yn trafod hyn ac yn ystyried y dystiolaeth a'r rhesymeg ar gyfer canllawiau'r sefydliad. Mae hyn yn bwysig gan fod lefel y cyfarpar diogelu personol a ddefnyddir gan ein staff yn ystod dadebriad yn cael ei hysbysu gan a yw'r ymyriad cywasgiadau cardiaidd yn weithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol ai peidio.
101. Daethpwyd i'r casgliad, yn absenoldeb barn gonsensws, bod dyletswydd tuag at y staff i wyro at fod yn orofalus a darparu canllawiau fod y cyfarpar diogelu personol sy'n ofynnol ar gyfer gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol yn cael ei wisgo drwy'r amser yn ystod dadebriad, gyda'r penderfyniad hwn wedi'i esgyn i'r Tîm Pandemig Gweithredol a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth.
102. Yn ychwanegol, cynhaliwyd asesiad risg llawn, a gofnodir yng nghofrestr risgiau corfforaethol y sefydliad. Mae'r Cyfarwyddwr Cysylltiol Parafeddygaeth wedi sefydlu grŵp i ymdrin â'r heriau a wynebier o ran ymateb amserol i gleifion sydd angen dadebru yn erbyn yr angen i wisgo cyfarpar diogelu personol addas ar gyfer gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol ac i sicrhau fod gennym ni ddatrysiad tymor hir i ddiogelu'r achubwr yn ddigonol wrth uchafu deilliannau'r claf.

Seilwaith

103. Un o elfennau diffiniol ymateb yr Ymddiriedolaeth i'r argyfwng Covid-19 fu cyflymder a graddfa'r newid a gyflawnwyd ar draws ystod o swyddogaethau i alluogi staff gweithredol i ddarparu hyd eithaf eu gallu mewn amgylchiadau heriol.
104. Mae newidiadau a fyddai wedi cymryd misoedd, neu flynyddoedd hyd yn oed, i'w cyflawni wedi'u lledaenu mewn dyddiau ac wythnosau, diolch i ymdrech Hercwleidd gan staff gwasanaeth cymorth corfforaethol.
105. Er enghraifft, cafodd llawr gwag yn lleoliad Tŷ Vantage Point y sefydliad yng Nghwmbrân ei weddnewid mewn 24 awr yn ganolfan cyswllt clinigol gweithredol ac effeithiol, yn darparu capasiti ymchwydd gyda phellter cymdeithasol priodol i atebwyr galwadau a staff clinigol.
106. Yn yr un modd, mae agwedd y sefydliad tuag at dechnoleg a chysylltedd digidol wedi symud ymlaen yn gyflym gyda lledaenu'r pecyn Microsoft Office 365, gan ganiatáu i dimau gysylltu o bell a defnyddio Skype, Zoom a Microsoft Teams i alluogi unigolion a thimau i gysylltu gyda'r sefydliad ehangach, yn cynnwys ar lefel y Bwrdd, gyda chyfarfod mis Ebrill yn rhith gyfarfod llwyr.
107. Datblygwyd gwiriwr symptomau 111 Galw Iechyd Cymru ar fyrder ar ddechrau'r pandemig ac mae wedi cael dros filiwn o ymweliadau ers ei lansio ym mis Mawrth. Mae cyfleuster sgysfot wedi'i gyflwyno'n ddiweddar i wella profiad digidol defnyddwyr ymhellach a lleihau'r pwysau ar y llinellau ffôn 111.
108. Sicrhawyd fod y rhif ffôn 111 ar gael ymhob rhan o Gymru ar gyfer ymholiadau'n gysylltiedig â Covid-19 ac mae gwefan flaenorol Galw Iechyd Cymru wedi'i adnewyddu i gynnwys brandio 111, gydag URL diwygiedig - 111.wales.nhs.uk
109. Mae hwyluso gweithio o bell trwy ddarparu gliniaduron, dyfeisiau tabled a/neu ffonau i'r rhai nad oedd ganddyn nhw'r offer i weithio gartref yn flaenorol wedi caniatáu i lawer mwy o staff weithio'n effeithiol o adref na fyddai wedi bod yn bosibl fel arall.
110. Mae'r capasiti hyfforddiant digidol ac o bell wedi'i wella'n fawr hefyd, gyda hyfforddiant hanfodol recriwtiaid newydd yn cael ei gynnal yn rhannol trwy ddysgu o bell a dysgu digidol.
111. Yr hyn sy'n bwysig nawr yw bod yr Ymddiriedolaeth yn gwneud y mwyaf o'r datblygiadau hyn ac yn eu defnyddio i hysbysu ei feddyliau o ran ystod o gynlluniau i'r dyfodol, yn cynnwys modelau gweithio yn y dyfodol, ystadau a chysylltedd digidol, ar gyfer ei weithlu ac ymgysylltu gyda chleifion.

Llywodraethu a Chraffu

112. Trwy gydol paratoi ar gyfer ac ymateb i'r argyfwng Covid-19 mae Gwasanaeth Ambiwylans Cymru wedi talu sylw brwd i gynnal diwylliant o lywodraethu da, wedi'i sylfaenu ar sicrwydd i a chraffu gan y Bwrdd.
113. Yn ystod cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ar 26 Mawrth 2020 cadarnhawyd bod Cynllun Pandemig yr Ymddiriedolaeth wedi'i sbarduno ac y byddai'r cynllun hwn yn penderfynu sut y byddai'r Ymddiriedolaeth yn rheoli ei ymateb i'r pandemig Covid-19.

114. Roedd y cynllun yn galw ar yr Ymddiriedolaeth i sefydlu strwythur cell a fyddai'n sicrhau llywodraethu da a chadw cofnodion manwl trwy gydol y pandemig. Hefyd hysbyswyd y Bwrdd lle'r oedd angen canolbwyntio adnoddau a'r recriwtio ac adleoli staff o ganlyniad i hynny. Mae'r strwythur celloedd diweddaraf ynghlwm er gwybodaeth yn Atodiad 1.
115. Gwnaeth y Bwrdd ystyried canlyniadau hyn ar fusnes y Bwrdd a Phwyllgorau hefyd, yn ogystal â dyddiadau ac amseroedd cynlluniedig cyfarfodydd. Cydnabu'r Bwrdd y gallai fod angen i agendâu cyfarfodydd ganolbwyntio mwy ar gefnogi'r Ymddiriedolaeth trwy'r pandemig ond, ar yr un pryd, bod angen i'r Bwrdd a'r Pwyllgorau barhau i gyflawni eu cyfrifoldebau craffu a herio a chynnal llywodraethu da.
116. Daeth y Bwrdd i'r casgliad y dylai holl ddyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau barhau, ac eithrio cyfarfod Ebrill y Pwyllgor Pobl a Diwylliant, a fyddai'n cael ei ohirio i ddyddiad diweddarach (dechrau Mehefin). Nododd y Bwrdd hefyd y gallai fod yn ofynnol gohirio cyfarfod mis Mai y Pwyllgor Archwilio am fis, yn dibynnu ar dderbyn cadarnhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch yr amserlen ddiwygiedig ar gyfer cyfrifon blynyddol, a dderbyniwyd erbyn hyn.
117. Mae'r sicrwydd hyn wedi'i ymestyn i lywodraethu ariannol, gyda'r Bwrdd yn cytuno ar y prosesau llywodraethu y dylid eu cyflwyno, petai achlysuron lle bo angen cymeradwyaeth ariannol frys ar faterion yn goresgyn terfynau ariannol dirprwyedig y swyddogion gweithredol.
118. Ystyriodd y Bwrdd wahanol ddewisiadau, yn cynnwys cynyddu terfynau dirprwyedig y Prif Weithredwr, ond daethant i'r casgliad y dylid defnyddio'r system gyfredol o Weithred y Cadeirydd gan fod hyn yn darparu'r lefel llywodraethu, rheoli a sicrwydd cywir. Roedd hyn ar y ddealltwriaeth y gellid trefnu cyfarfodydd Gweithred y Cadeirydd ar fyr rybudd.
119. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid yn parhau i friffio cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn rheolaidd yng nghyswllt y costau ychwanegol sy'n codi wrth ymateb i'r pandemig, gyda'r costau hynny'n cael eu cofnodi o'r dechrau er mwyn cynnal dadansoddiad llawn yn ddiweddarach.
120. Mae'r Bwrdd ei hun wedi parhau i gyfarfod yn unol â'r amserlen ac ar sail eithriadol, i sicrhau fod yr aelodau'n parhau i weld a chraffu gwneud penderfyniadau gan y Cyfarwyddwyr Gweithredol, ac mae wedi ymwneud â'r meysydd hynny o arwyddocâd strategol lle bu'n ofynnol cael awdurdod y Bwrdd i fwrw ymlaen.
121. Mae technoleg wedi galluogi'r Bwrdd i gynnal rhith gyfarfodydd, yn cynnwys cyfarfod Bwrdd llwyddiannus a oedd yn agored i'r cyhoedd, ac mae hwn yn faes dysgu i'r dyfodol o ran ymgysylltu gyda'r cyhoedd.
122. Mae Ysgrifennydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi cymryd cyfrifoldeb arweiniol am reoli cofnodion, gan sicrhau fod yr holl ddogfennau'n cael eu cwblhau'n briodol a'u storio i gofnodi'r penderfyniad, at ddibenion cywirdeb ac adolygiad yn y dyfodol.
123. Fel gwasanaeth a gomisiynir mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi sicrhau bod Prif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwylans wedi cael ei friffio yn rheolaidd, gan gynnal deialog wythnosol ynghylch ansawdd, perfformiad, llywodraethu ac ymrwymadau ariannol, yn enwedig y costau ychwanegol mae'r Ymddiriedolaeth wedi gorfod ymrwymo iddynt o ganlyniad uniongyrchol i'r ymateb i'r pandemig.

124. Mae'r tîm llywodraethu gwybodaeth, ynghyd â'r tîm Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu wedi sicrhau fod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i fodloni'r gofynion dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

Perthnasoedd

125. Elfen bwysig o ddull Gwasanaeth Ambiwlans Cymru'n ymdopi trwy'r pandemig fu'r canolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth gyda'r system iechyd a gofal ehangach. Fel gwasanaeth a gomisiynir gan y saith bwrdd iechyd yng Nghymru bu'n bwysig sicrhau fod y sefydliad wedi gweithio yn unol â sefydliadau eraill, rhannu profiadau a chefnogi datblygiadau'r system ehangach.
126. Cyfeiriwyd eisoes at berthnasoedd pwysig yr Ymddiriedolaeth gyda'i staff a phartneriaid undeb llafur, a bu ymgysylltu cynhwysfawr gyda byrddau iechyd hefyd, yn enwedig o ran newidiadau gwasanaeth a chynllunio a chyflawni capasiti ymchwydd, er enghraifft, ysbytai maes.
127. Mae ymgysylltu gyda grwpiau cymheiriaid wedi bod yn bwysig ar gyfer rhannu gwybodaeth a phrofiadau, yn ogystal â datrys heriau ar y cyd. Mae'r Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr oll yn ymwneud yn weithgar mewn grwpiau cymheiriaid ar lefel gwasanaeth ambiwlans Cymru a'r Deyrnas Unedig trwy'r Gymdeithas Prif Weithredwyr Ambiwlans gyda'r cyfan ohonynt wedi cyfarfod yn rheolaidd iawn trwy'r cyfnod heriol hwn.
128. Dylid nodi'n benodol y rhyngweithio gyda chydweithwyr Llywodraeth Cymru. Mae Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth wedi croesawu'r berthynas waith agos a luniwyd gan y Gweinidog a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, gyda'r ymgynghori gan yr olaf wedi'i werthfawrogi'n fawr, gan ganiatáu i bawb gael y cyfle i gyfrannu.
129. Yn ychwanegol, croesawyd cyhoeddi canllawiau gan Lywodraeth Cymru ar faterion yn amrywio o faterion moesegol i wneud penderfyniadau ariannol a llywodraethu.
130. Mae Conffederasiwn GIG Cymru wedi chwarae rôl bwysig yn rhannu arferion da ar draws y system, gyda chompendiwm wrthi'n cael ei lunio yn awr i gefnogi ailddechrau rhai gwasanaethau, yn ogystal â chefnogi a gwasanaethau grwpiau cymheiriaid.

Cyfathrebu ac Ymgysylltu

131. Mae cyfathrebu clir a systematig ac ymgysylltu gyda staff a rhanddeiliaid wedi bod yn un o elfennau allweddol dull Gwasanaeth Ambiwlans Cymru o drin y pandemig.
132. Gwnaed penderfyniad yn gynnar iawn i ddisodli cell gyfathrebu benodol yn strwythurau pandemig y sefydliad ac, yn hytrach na hynny, ganolbwyntio ar wreiddio aelodau'r tîm cyfathrebu mewn grwpiau allweddol, yn cynnwys y Tîm Cynllunio Tactegol, y Ganolfan Gydyntu Digwyddiadau a'r Tîm Pandemig Gweithredol ymhlith eraill. Mae hyn wedi profi'n strategaeth effeithiol.
133. Wrth graidd dull yr Ymddiriedolaeth o gyfathrebu ac ymgysylltu gyda chyflogeion oedd cyfathrebu rheolaidd, perthnasol ac effeithiol sy'n darparu cyfleoedd i glywed gan staff yn ogystal â'r gallu i gyfleu gwybodaeth.

134. O'r dechrau bron sylweddolwyd fod swm yr wybodaeth yr oedd angen i staff ei derbyn yn eang, gyda'r potensial i orlethu, ar adeg pan oedd y sefyllfa'n esblygu'n gyflym.
135. Penderfynwyd, o ganlyniad i hyn, mae'r ffordd hawsaf o drosglwyddo gwybodaeth amserol i gydweithwyr oedd trwy fwletin dyddiol i'r holl staff, a ddosbarthwyd ar yr un amser yn ddyddiol trwy e-bost i'r holl staff, ar y Mewnrwyd a thudalen Facebook staff yn unig yr Ymddiriedolaeth.
136. Ar y cyd gyda hyn lluniwyd tudalen Mewnrwyd benodol ar gyfer Covid-19 a sefydlu gweddarllediadau YGAC byw i staff, yn wythnosol i ddechrau a bob pythefnos erbyn hyn. Roedd hyn yn caniatáu i'r Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol ehangach gysylltu gyda staff mewn amser real, a darparu platform i staff holi cwestiynau a gofyn am eglurhad ynghylch ystod o faterion. Cynhaliwyd y rhain trwy gyfrwng Zoom a Facebook Live, gyda'r sesiynau ar gael ar ffurf fideo i staff ei wyllo'n ddiweddarach os nad ydyn nhw'n medru gwyllo'n fyw. Yn dilyn lledaenu'r pecyn Office 365 ar draws Cymru mae'r rhain yn cael eu cynnal ar y platform Microsoft Teams yn awr.
137. Mae Gwasanaeth Ambiwlans Cymru wedi harneisio defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a chyfryngau prif ffrwd i gefnogi negeseuon i'r cyhoedd, gyda defnyddio fideo yn arf allweddol ar gyfer cyfleu negeseuon yn effeithiol. Mae llawer o'r rhain wedi'u defnyddio gan ddarlledwyr ac wedi sbarduno sylw gan y wasg a'r cyfryngau.
138. Defnyddiwyd yr un platfformau i gyfleu negeseuon i'r staff, gyda #ReachforTheRazor yn enghraifft arbennig o effeithiol o ymgyrch lwyddiannus, yn canolbwyntio ar annog staff gwrywaidd i eillio i gynorthwyo gyda bodloni gofynion prawf ffit cyfarpar diogelu personol, a wnaed bron yn gyfan gwbl trwy gyfrwng cyfryngau cymdeithasol a fideo.
139. Mae cyfathrebu gyda rhanddeiliaid wedi cynnwys briffiadau personol yn defnyddio datrysiadau digidol, ac wedi canlbwyntio ar gyhoeddi Briffio Rhanddeiliaid i holl Aelodau'r Senedd ac Aelodau Seneddol yng Nghymru, yn ogystal ag amrediad o rhanddeiliaid eraill, yn cynnwys byrddau iechyd a chynghorau iechyd cymunedol.
140. Rhoddwyd cefnogaeth i lechyd Cyhoeddus Cymru hefyd, yn enwedig gyda datblygu adnoddau ar gyfer y rhai ag anghenion penodol, er enghraifft, fersiynau hawdd ei ddeall gwybodaeth gyhoeddus yn ymwneud â Covid-19.
141. Fel rhan o'r ôl-drafodaeth a'r dysgu o gam hwn y pandemig bwriedir cynnal arolwg ymhlith staff a'r cyhoedd yn fuan ynghylch eu barn am yr hyn sydd wedi mynd yn dda a ddim cystal hyd yma. Bydd canfyddiadau'r arolygon hyn yn hysbysu ein dulliau gweithredu yn y dyfodol.

Monitro ac Adfer

142. Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae'r Ymddiriedolaeth wedi dechrau ar y broses o gynllunio sut y bydd yn aildechrau rhai elfennau o'i gwaith sydd wedi cael eu hoedi yn ystod y cyfnod hwn. Mae hyn wedi cynnwys y Tîm Gweithredol, y Tîm Arweinyddiaeth Cyfarwyddwyr Cynorthwyol a'r Bwrdd yn gweithio gyda'i gilydd i flaenoriaethu'r meysydd hynny lle mae angen ailafael yn y gwaith yn awr.
143. Fel y crybwyllwyd yn flaenorol yn y ddogfen hon, mae recriwtio yn unol ag adolygiad galw a chapasiti'r llynedd wedi parhau, a gefnogwyd gan y comisiynwyr, er mwyn rhoi'r siawns

gorau posibl o adferiad i'r sefydliad, gan sylweddoli y gallai absenoldeb staff gynyddu yn ystod y flwyddyn wrth i effaith hirhoedlog y pandemig ddechrau brathu.

144. Yn unol â fframwaith gweithredol Llywodraeth Cymru ar gyfer y misoedd nesaf, mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i sicrhau y gall barhau i leoli capasiti ymchwyd cyn pen saith diwrnod petai hyn yn ofynnol.
145. Mae hyn yn golygu defnyddio dull wedi'i bwysu a'i fesur o ran adfer rhai gwasanaethau, symud staff yn ôl i'w swyddi craidd a pharhau'n wyliadwrus, yn ogystal â chynllunio ar gyfer dychwelyd "diogel" i'r gweithle i'r staff hynny sydd wedi gweithio o bell yn ystod y pandemig.
146. Ar adeg ysgrifennu hyn bu ymdeimlad cynyddol o weithgarwch "normal" yn dechrau dychwelyd o ran y galw, rhywbeth a fydd yn cael ei fonitro'n agos.
147. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dechrau ei phroses adolygu, myfyrio ac edrych ymlaen ddechreuol hefyd, gyda datblygiad fframwaith pedwar ffactor ar gyfer y chwe mis nesaf, sy'n rhoi manylion y pedwar maes y bydd yr Ymddiriedolaeth yn canolbwyntio ei sylw arnynt: ymateb yn hyblyg; aildechrau'r hyn sy'n bwysig; cefnogi staff a dysgu oddi wrth a chadw'r hyn sydd wedi gweithio. Bydd y cwadrantau hyn yn cael eu sylfaenu ar ymddygiadau craidd yr Ymddiriedolaeth o ddangos caredigrwydd a thosturi; gwrando, myfyrio a dysgu gyda'n gilydd; bod yn agored a gonest; a chadw'n gysylltiedig. Dangosir y fframwaith cynllun gweithredol hwn yn yr atodiad.
148. Yr hyn sy'n amlwg yw y bydd y cyfnod monitro'n cael ei ymestyn, gan ganiatáu mwy o amser ar gyfer cynllunio'r adferiad ond gyda'r potensial o'i atal, yn enwedig os oes sbigynnau dilynol a dros gyfnod estynedig yng ngweithgarwch y feirws.
149. Yn yr un modd byddwn yn talu sylw agos i heriau dychwelyd i alw mwy "normal", ar adeg pan fo mynd yn ôl at gynnydd yn lefelau gweithgarwch y pandemig yn parhau'n risg.

Sylwadau i gloi

150. Nid yw ymateb Gwasanaeth Ambiwylans Cymru i bandemig Covid-19 wedi gorffen eto. Mewn sawl ffordd, dyma'r dechrau'n unig. Fodd bynnag, er gwaethaf heriau a'r trasiedi, mae wedi dangos bod y gwasanaeth yn un sy'n gallu bod yn ystwyth ac yn ymatebol, yn medru cyflwyno newid sylfaenol yn gyflym ac ar raddfa eang, ac sy'n meddu ar weithlu a thîm arweinyddiaeth â'u prif ffocws ar barhau i ddarparu'r gofal gorau posibl i bobl Cymru.
151. Wrth i'r sefyllfa ddatblygu a normalrwydd newydd ddechrau ymddangos, bydd Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru'n parhau'n wyliadwrus tra'n anelu i harneisio'r elfennau cadarnhaol sydd wedi deillio o'r cyfnod digynsail hwn er mwyn cyflawni sefydliad cryfach gyda mwy o ganolbwyntio ar y dyfodol.

Diwedd/EVH/Mai20

Atodiad 1 – STRATEGAETH COVID19 YMDDIRIEDOLAETH GWASANAETHAU AMBIWLANS CYMRU



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth GIG
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Welsh Ambulance Services
NHS Trust

Welsh Ambulance Service NHS Trust Pandemic Strategy

It is the intention of WAST to respond to and manage the ongoing pandemic in a way which promotes and saves life, reduces humanitarian suffering and is compatible with the vision and values of WAST. This will be achieved through effective coordination, planning and leadership.

The Executive Pandemic Team will:

1. Maintain public confidence and minimise the impact of the pandemic by ensuring that WAST is responding effectively to the incident.
2. Ensure that the WAST response is coordinated and integrated with the wider health and responding agencies.
3. Maintain effective capacity management within the Emergency and Non-Emergency Services, and the Clinical Contact Centres, by
 - a) Assessing and identifying any gaps in the response capability of the organisation for dealing with the pandemic.
 - b) Identification and request for mutual aid.
4. So far as is practicable, take all reasonable measures and employ all appropriately identified control measures to safeguard and protect the Health, Safety and Wellbeing of all our people consistent with the requirements of Health and Safety and other relevant Legislation.
5. Ensure public messages are coordinated with other agencies and partners.
6. Ensure all internal communications and messages are coordinated within the Trust.
7. Ensure effective Business Continuity and Recovery arrangements are in place across the organisation and review where necessary.
8. Provide support and representation at Strategic Co-ordination Groups (SCGs) and Tactical Co-ordination Groups (TCGs) where appropriate.
9. Ensure the creation, maintenance and safe storage of well-documented, auditable plans and decision logs for the pandemic at all levels of command.
10. Review this strategy every week.

Signature:

Date:

[Handwritten Signature]
4/3/20


(Chief Executive Officer)

Time:

1557hrs

ATODIAD 2 – STRWYTHUR GORCHYMYN, RHEOLI A CHYDLYNU COVID19

**Welsh Ambulance Services NHS Trust
Covid-19 National Command, Control and Coordination (C3) Structure**



Notes:

1. Comms and Engagement embedded in EPT, TPT, ICC, Business Continuity Cell, Logistics Cell and TU Cell. Available as required to support other cells

Incident Coordination Cell (ICC) acting as focal point for all daily activities.

Email: wast.icc@wales.nhs.uk

Phone: 01633 358666 (internal: 42666)

TG: 81

V1.4
29 April 2020

Atodiad 3: Fframwaith y Cynllun Gweithredol ar gyfer Chwarter Un a Dau 2020/21

